SESIWN GALW HEIBIO MDaPh MATHEMATEG A RHIFEDD - CYNRADD

Addas ar gyfer:	Cynradd			
Disgrifiad:	Sesiynau galw heibio anffurfiol a hwylusir gan YCG Mathemateg a Rhifedd Cynradd GwE. Bydd y sesiynau yn ymateb i anghenion y rheiny sy'n mynychu. Bydd y sesiynau yn edrych ar: <ul style="list-style-type: none">• Gynllunio• Addysgeg• Egwyddorion cynnydd• Monitro ac arfarnu			
Deilliannau:	Gallu trafod/gofyn cwestiynau am weithredu MDaPh Mathemateg a Rhifedd yn eu lleoliad, yn ogystal â gweithredu Rhifedd fel sgil trawsgwricwlaidd.			
Dyddiad(au):	Cyfarfod 1 awr ar-lein bob tymor ar TEAMS, 3 opsiwn: 09:00 – 10:00, 13:00 – 14:00 neu 15:30 – 16:30 ar y dyddiadau isod			
	<table><tr><td>Tymor yr Haf 2024: 04/07/2024</td><td>Tymor yr Hydref 2024: 11/12/2024</td><td>Tymor y Gwanwyn 2025: 25/03/2024</td></tr></table>	Tymor yr Haf 2024: 04/07/2024	Tymor yr Hydref 2024: 11/12/2024	Tymor y Gwanwyn 2025: 25/03/2024
Tymor yr Haf 2024: 04/07/2024	Tymor yr Hydref 2024: 11/12/2024	Tymor y Gwanwyn 2025: 25/03/2024		

SESIWN GALW HEIBIO MDaPh MATHEMATEG A RHIFEDD - UWCHRADD

Addas ar gyfer:	Uwchradd			
Disgrifiad:	Sesiynau galw heibio anffurfiol a hwylusir gan YCG Mathemateg a Rhifedd Uwchradd GwE. Bydd y sesiynau yn ymateb i anghenion y rheiny sy'n mynychu. Bydd y sesiynau yn edrych ar: <ul style="list-style-type: none">• Gynllunio• Addysgeg• Egwyddorion cynnydd• Monitro ac arfarnu			
Deilliannau:	Gallu trafod/gofyn cwestiynau am weithredu MDaPh Mathemateg a Rhifedd yn eu lleoliad, yn ogystal â gweithredu Rhifedd fel sgil trawsgwricwlaidd.			
Dyddiad(au):	Cyfarfod 1 awr ar-lein bob tymor ar TEAMS, 3 opsiwn: 09:00 – 10:00, 13:00 – 14:00 neu 15:30 – 16:30 ar y dyddiadau isod			
	<table><tr><td>Tymor yr Haf 2024: 04/07/2024</td><td>Tymor yr Hydref 2024: 11/12/2024</td><td>Tymor y Gwanwyn 2025: 25/03/2024</td></tr></table>	Tymor yr Haf 2024: 04/07/2024	Tymor yr Hydref 2024: 11/12/2024	Tymor y Gwanwyn 2025: 25/03/2024
Tymor yr Haf 2024: 04/07/2024	Tymor yr Hydref 2024: 11/12/2024	Tymor y Gwanwyn 2025: 25/03/2024		



DATBLYGU'R HYFEDREDDAU MATHEMATEGOL - RHAGLEN 2-DDIWRNOD


Addas ar gyfer: Athrawon mathemateg 8 – 14

Disgrifiad: Cynhelir Diwrnod 1 yn nhymor yr hydref a Diwrnod 2 yn nhymor y gwanwyn

- Deilliannau:**
- cael dealltwriaeth gynhwysfawr o 5 hyfedredd mathemategol y Cwricwlwm i Gymru
 - dod i wybod am strategaethau cynllunio cynllun gwaith sy'n meithrin datblygiad hyfedreddau mathemategol ymhlith dysgwyr o fewn y cynllunio cwricwlwm.
 - edrych ar ddulliau o ddatblygu dealltwriaeth gysyniadol mewn mathemateg, yn cynnwys defnyddio deunyddiau diriaethol, cynrychioliadau gweledol a chyd-destunau byw.
 - cael dealltwriaeth ddyfnach o lythrennedd disgyblaethol mewn mathemateg, gyda ffocws penodol ar lafaredd ac edrych ar dechnegau i feithrin trafodaethau a chyfathrebu mathemategol ymhlith dysgwyr.
 - datblygu dealltwriaeth ddyfnach o gwestiynu effeithiol mewn mathemateg, a syniadau ymarferol ar gyfer datblygu rhesymu rhesymegol a datrys problemau.
 - Bydd disgwyl i aelodau gwblhau tasgau rhwng sesiynau, a rhannu sut maent wedi gweithredu neu gymhwyso'r hyn maent wedi'i ddysgu drwy adrodd yn ôl ar ddiwrnod dau.

Dyddiad(au): Gweithdy 2-diwrnod:

Diwrnod 1:	Diwrnod 2:
14/10/2024 – Swyddfa Bryn Eirias (Saesneg)	30/01/2025 – Swyddfa Bryn Eirias (Saesneg)
15/10/2024 – Swyddfa Penrallt (Cymraeg)	04/02/2025 – Linden House (Saesneg)
16/10/2024 – Porthmadog (Cymraeg)	05/02/2025 – Porthmadog (Cymraeg)
17/10/2024 – Linden House (Saesneg)	06/02/2025 – Swyddfa Penrallt (Cymraeg)
18/10/2024 – Linden House (Cymraeg)	07/02/2025 – Linden House (Cymraeg)



ADDYSG ARIANNOL

Addas ar gyfer: Athrawon 8 – 14

Disgrifiad: Addas ar gyfer Arweinwyr ac ymarferwyr Mathemateg a Rhifedd ac Iechyd a Lles

Deilliannau:

- Dod i ddeall sut gellir cynnwys Addysg Ariannol yng nghyd-destun y cwricwlwm cynradd neu uwchradd, gan rannu syniadau ac adnoddau ar gyfer arfer effeithiol.
- Datblygu dealltwriaeth o allu ariannol a chontinwrm addysg ariannol er mwyn helpu plant i osod sylfeini ar gyfer lles a gwytnwch ariannol i'r dyfodol, gan eu helpu i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i wneud cynnydd tuag at gyflawni pedwar diben y cwricwlwm.
- Defnyddio adnoddau a negeseuon y gweithdy hwn i wella ansawdd dysgu ac addysgu Addysg Ariannol yn eu lleoliad.

Dyddiad(au): Sesiynau hanner diwrnod:

Cyfrwng Cymraeg

20/01/2025 – Linden House – 13:00 – 15:30

21/01/2025 – Bryn Eirias – 09:00 – 11:30

22/01/2025 – Penrallt – 09:00 – 11:30

22/01/2025 – Clwb Pêl-droed Porthmadog

13:00 – 15:30

Cyfrwng Saesneg

20/01/2025 – Linden House – 09:00 – 11:30

21/01/2025 – Bryn Eirias – 13:00 – 15:30



DARLLEN: DATBLYGU DARLLEN YN EICH YSGOL GAN DDEFNYDDIO STRATEGAETHAU EFFEITHIOL A CHREU DIWYLLIANT O GARIAD AT DDARLLEN.

Addas ar gyfer: Athrawon dosbarth (8-11) a/neu Cydlynwyr Llythrennedd

Disgrifiad: Yn ystod y rhaglen undydd hon, byddwn yn edrych ar y gwahanol elfennau o ddarllen sydd eu hangen i greu darllenwyr effeithiol, gan gynnwys grym llafaredd i gefnogi a datblygu sgiliau darllynydd. Byddwn yn rhannu strategaethau a gwybodaeth i gefnogi eich taith tuag at greu ethos darllen difyr ac ysbrydoli eich dysgwyr i ddarllen.

Bydd tasg ddilynol yn cael ei osod i'r holl fynychwyr gyda'r YCG Cyswllt yn monitro effaith.

- Deilliannau:**
- Dealltwriaeth ddofnach o strategaethau effeithiol i ddatblygu sgiliau darllen yn y ddwy iaith
 - Cydweithio i rannu syniadau ac arferion gorau mewn addysgeg darllen
 - Myfyrio ar egwyddorion cynnydd Cwricwlwm i Gymru ar hyd y continwmm dysgu
 - Dysgu technegau ymarferol i gyfoethogi ymgysylltiad a chymhelliant myfyrwyr wrth ddarllen
 - Cael ysbrydoliaeth a dealltwriaeth i feithrin cariad at ddarllen ymysg dysgwyr
 - Edrych ar sut mae llenyddiaeth yn 'tanio'r dychymyg' ac yn gwneud darllen yn berthnasol ar draws y cwricwlwm cyfan

Dyddiad(au): Rhaglen undydd dwyieithog 09:00 – 15:30

26/11/2024 – Linden House, Yr Wyddgrug

27/11/2024 – Bryn Eirias, Bae Colwyn

28/11/2024 – Penrallt, Caernarfon



YSGRIFENNU: DATBLYGU'R DAITH YSGRIFENNU YN EICH YSGOL

Addas ar gyfer: Ymarferwyr 8-11

Disgrifiad: Yn ystod y rhaglen undydd hon, byddwn yn edrych ar sut i fynd ati, fesul camau bach, i ddatblygu'r sgiliau i greu ysgrifenyddwr pwrpasol ac effeithiol yn eich ysgol
Yn benodol, byddwn yn archwilio sut mae sgiliau llafaredd ac ysgrifennu yn rhygddibynnol a sut, trwy gryfhau llafaredd, y byddwch yn creu ysgrifenyddwr mwy effeithiol.

Bydd tasg ddilynol yn cael ei osod i'r holl fynychwyr gyda'r YCG Cyswllt yn monitro effaith.

- Deilliannau:**
- Cael dealltwriaeth ddofnach o'r broses ysgrifennu a chynnydd dysgwyr
 - Gallu defnyddio asesu ar gyfer dysgu yn effeithiol i gefnogi cynnydd mewn ysgrifennu
 - Dealltwriaeth well i gynllunio cyfleoedd dysgu cyfoethog a phwrpasol ar draws y cwricwlwm
 - Gallu creu amgylchedd ysgrifennu cefnogol

Dyddiad(au): Rhaglen undydd 09:00 – 15:30

11/02/2025 – Linden House, Yr Wyddgrug

12/02/2025 – Bryn Eirias, Bae Colwyn

13/02/2025 – Penrallt, Caernarfon

I'w gadarnhau – Ysgol Bro Idris, Dolgellau



CYFARFODYDD RHWYDWAITH IEITHOEDD RHYNGWLADOL

Addas ar gyfer:	Penaethiaid Adran, athrawon ac ymarferwyr Ieithoedd Rhyngwladol
Disgrifiad:	<p>Cyfleoedd i athrawon IRh rwydweithio a gweithio ar y cyd â chyd-weithwyr ar draws y rhanbarth ar (agenda i'w phenderfynu):</p> <ul style="list-style-type: none">• Rhannu a datblygu arferion da• Cynllunio creadigol• Y dimensiwn Rhyngwladol a Diwylliannol• Sgiliau Llafaredd• Cynnydd• Asesu
Deilliannau:	<ul style="list-style-type: none">• Cyfle i ymarferwyr weithio ar y cyd â'r rhwydweithiau i wella ansawdd Dysgu ac Addysgu mewn IRh a datblygu dylunio a chynllunio effeithiol o fewn MDaPh ILICh.
Dyddiad(au):	<ul style="list-style-type: none">• 10/06/2024• Hydref 2024• Ionawr 2025 <p>Dyddiadau a lleoliadau i'w cadarnhau.</p>

IEITHOEDD RHYNGWLADOL YN Y SECTOR CYNRADD: SESIWN HYFFORDDIANT GAN YR INSTITUT FRANÇAIS

Addas ar gyfer:	Ymarferwyr cynradd
Disgrifiad:	<p>Bydd y sesiwn yn edrych ar sut i gefnogi cynnydd dysgwyr mewn Ieithoedd Rhyngwladol, sut mae cynnydd yn edrych a sut i'w fesur.</p> <p>Canolbwyntir ar enghreifftiau ymarferol ac adnoddau Ffrangeg ond gall athrawon o bob iaith gymryd rhan. Mae'r sesiwn hefyd ar agor i ymarferwyr waeth beth yw lefel eu Ffrangeg, a p'un a ydych chi'n cyflwyno Ffrangeg eisoes neu wrthi'n cynllunio ar gyfer hynny. Bydd y sesiwn yn un rhyngweithiol, gyda digon o gyfleoedd i rannu syniadau, gofyn cwestiynau a magu hyder.</p>
Deilliannau:	<ul style="list-style-type: none">• Gwell ansawdd i'r ddarpariaeth ar gyfer IRh yn eu lleoliad.• Mwy o ddealltwriaeth o gynnydd mewn IRh yn y sector cynradd.• Mwy o hyder wrth ddylunio a chynllunio cwricwlwm IRh.
Dyddiad(au):	Ar-lein ar 21/05/2024 15:45 – 17:00



ARCHWILIO AMLIEITHRWYDD AR DRAWS ILLC

DR ELIN ARFON UCL, PRIFYSGOL CAERDYDD GYNT

Addas ar gyfer:	Ymarferwyr Uwchradd Ieithoedd Rhyngwladol, Cymraeg iaith gyntaf, Cymraeg mewn lleoliadau Saesneg a Saesneg
Disgrifiad:	<ul style="list-style-type: none"> Sesiwn ryngweithiol i drafod cydweithio a datblygu cysylltiadau addysgegol rhwng y Gymraeg, Saesneg ac Ieithoedd Rhyngwladol
Deilliannau:	<ul style="list-style-type: none"> Mae ymarferwyr yn datblygu syniadau ymarferol ar gyfer sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o sgiliau traws-ieithyddol nid yn unig i gefnogi eu hieithoedd rhyngwladol ond hefyd i wneud mwy o gynnydd yn y Gymraeg a'r Saesneg. Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd amlieithrwydd a chydweithio o fewn ILLC
Dyddiad(au):	Ar-lein 13/11/2024 – 15:34 – 17:00 Dyddiad Chwefror i'w gadarnhau

GWREIDDIO IEITHOEDD RHYNGWLADOL YN Y CWRICWLWM

Addas ar gyfer:	Athrawon ac ymarferwyr cynradd (nid oes angen sgiliau blaenorol mewn iaith ryngwladol)
Disgrifiad:	<ul style="list-style-type: none"> Diwrnod ymarferol hyfforddi gyda Power Language Datblygu darpariaeth IRh effeithiol a chyfoethog yn y sector cynradd gydag addysgeg ac adnoddau IRh ymarferol ac ysgogol.
Deilliannau:	<ul style="list-style-type: none"> Mae gan staff fwy o hyder ac arbenigedd. Cyflwyno ieithoedd rhyngwladol yn effeithiol yn y sector cynradd. Datblygu gweithgareddau ymarferol a diddorol.
Dyddiad(au):	27/11/2024 a 27/1/2025. Lleoliadau i'w cadarnhau.

CWRS 'ATHRAWON YN DYSGU SUT I ADDYSGU IEITHOEDD' (TELT) Y BRIFYSGOL AGORED

Addas ar gyfer:	Ymarferwyr cynradd a chynorthwyrwyr cymorth dysgu nad oes ganddynt sgiliau neu fawr ddim sgiliau mewn iaith ryngwladol.
Disgrifiad:	<ul style="list-style-type: none"> Dysgu sut i addysgu iaith yn y sector cynradd drwy'r Brifysgol Agored. Ariennir gan Dyfodol Byd-eang GwE. Yr ieithoedd sydd ar gael: Ffrangeg, Sbaeneg, Almaeneg, Mandarin Cwrs anghydamserol
Deilliannau:	<ul style="list-style-type: none"> Mwy o hyder ac arbenigedd wrth addysgu IRh yn y sector cynradd. Mwy o ddealltwriaeth o'r addysgeg ar gyfer dylunio cwricwlwm IRh perthnasol ac effeithiol.
Dyddiad(au):	Recriwtio Ar-lein gan Dyfodol Byd-Eang GwE ym mis Mehefin – Medi 2024 Cwrs gyda'r BA: Hydref 2024 – Mehefin 2025

Cynnig Cenedlaethol





DYSGU PROFFESIYNOL, YMHOLI AC YMCHWIL O DAN ARWEINIAD YSGOLION – Y PROSIECT YMHOLI PROFFESIYNOL CENEDLAETHOL (PYPC)

Addas ar gyfer:	Arweinwyr canol ac ymarferwyr o bob sector
Disgrifiad:	<p>Er 2018, bu GwE a'n partneriaid ymchwil ym Mhrifysgol Bangor a Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam yn gweithio gydag athrawon mewn mwy na 40 o ysgolion yn y rhanbarth er mwyn gwella eu sgiliau ymholi i ateb cwestiynau ynghylch darpariaeth ysgol. Mae gennym rwydwaith o ysgolion arweiniol a phartner a arweinir gan staff ymchwil academaidd mewn cyfuniad o gyfarfodydd grŵp ar-lein, a chymorth ar e-bost/ffôn fel bo'r angen. Mae gan PYPC hefyd storfa o ddeunyddiau canllaw craidd sydd ar gael i ysgolion sy'n cymryd rhan, a chaiff ysgolion gryn ryddid i adnabod y ffocws ymholi perthnasol.</p>
Deilliannau:	<ul style="list-style-type: none">• Gwella gallu athrawon i gynnal gwaith ymholi o safon dda.• Cefnogi athrawon ac ysgolion i gynnal gwerthusiadau o safon dda i helpu i wella darpariaeth ysgolion.• Hybu diwylliant o ymholi gan athrawon o fewn diwylliant sy'n fwy seiliedig ar dystiolaeth.
Dyddiad(au):	Sesiwn ragarweiniol ddiwedd mis Medi 2024 gyda sesiwn i gefnogi i ddilyn bob hanner tymor o fis Medi 2024



PWRPAS, ADDYSGEG a CHYNNYDD

Addas ar gyfer: Pob ysgol

Disgrifiad: Gan adeiladu ar Sgyrsiau Rhwydwaith Cenedlaethol 2024 yn seiliedig ar Gwricwlwm a Chynnydd, bydd y Sgwrs Genedlaethol Haf 2024 yn canolbwyntio ar rôl addysgeg o ran cefnogi ein dealltwriaeth o'r Cwricwlwm i Gymru.

Wedi'i gefnogi gan yr Athro Graham Donaldson, bydd y Sgwrs Genedlaethol hon yn rhoi cyfle i chi:

- Gymryd rhan mewn sgyrsiau proffesiynol gydag ymarferwyr ledled Cymru; aros, myfyrio a dysgu gan y naill a'r llall wrth i ni barhau â'n taith Cwricwlwm i Gymru.
- 'Trafod Addysgeg, Meddwl am Ddysgu' mewn amgylchedd diogel. Bydd cydweithwyr o ysgolion a lleoliadau eraill yn gallu ymwneud gyda'i gilydd a phartneriaid addysg, yn cynnwys Estyn, gwasanaethau gwella ysgolion, Sefydliadau Addysg Uwch a'r academi arweinyddiaeth.
- 'Trafod Addysgeg, Meddwl am Arweinyddiaeth'. Archwilio sut ydym yn datblygu fel sefydliadau dysgu myfyriol a chwilfrydig gan ddarparu'r profiadau gorau ar gyfer dysgwyr Cymru.

Deilliannau: • Os yn arweinydd, athro neu'n gynorthwydd dosbarth mewn ysgol yng Nghymru, bydd hwn yn gyfle gwerthfawr i rannu syniadau, dysgu gan eraill a magu perthnasoedd a fydd yn cryfhau ein dealltwriaeth gyffredin o Gwricwlwm i Gymru.

Dyddiad(au): 02/07/2024 am 10:00 – 15:30 yn Venue Cymru, Llandudno



RHAGLEN YMSEFYDLU I GYNORTHWYWR ADDYSGU NEWYDD

Addas ar gyfer: Cynorthwywr Addysgu sydd newydd eu penodi i'r swydd

Disgrifiad: Cyflwynir y Rhaglen genedlaethol hon ar lwyfan ddigidol ac mae modd ei chwblhau ar amser sydd yn gyfleus i'r cynorthwywr ac i'w lleoliad.

Mae'r modiwlau yn archwilio:

- Cyd-destun Addysg yng Nghymru – fy nghyfrifoldebau fel gweithiwr proffesiynol ym myd addysg yng Nghymru
- Safonau Proffesiynol ar gyfer Cynorthwyo Addysgu
- Cwricwlwm Cymru a fframweithiau cefnogol
- Addysgeg, gan ddatblygu fy nghreffft i gefnogi dysgwyr

Deilliannau: Bydd unigolion yn datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ddod yn gynorthwywr addysgu llwyddiannus yn eu lleoliad.

Dyddiad(au): Adnodd digidol parhaus drwy Hwb
[Cliciwch yma am ffurflen gofrestru](#)

RHAGLEN AR GYFER CYNORTHWYWR ADDYSGU WRTH EU GWAITH

Addas ar gyfer: Cynorthwywr Addysgu sydd wedi bod mewn swydd ers dwy flynedd neu fwy, fyddai'n croesawu diweddariad ar gyd-destun newidiol y proffesiwn.

Disgrifiad: Darperir y rhaglen genedlaethol hon yn rhanbarthol gan GwE drwy glystyrau ysgolion ac mae'n cwmpasu:

- Safonau Proffesiynol ar gyfer Cynorthwyo Addysgu
- rôl y Cynorthwydd Addysgu a suti ddatblygu'n broffesiynol
- pwysigrwydd adeiladu perthnasoedd positif
- sut mae polisiau a fframweithiau yn effeithio ar rôl y Cynorthwywr Addysgu
- newidiadau ym myd Addysg a pha mor berthnasol ydynt yn eu lleoliadau eu hunain – Cwricwlwm i Gymru, diwygio ADY a Proffiliau Un Tudalen
- Asesu a gwahaniaethu
- Cyfathrebu effeithiol
- Cymraeg – hybu iaith a diwylliant Cymru
- creu a gwella rhwydweithiau a chydweithio proffesiynol ymysg Cynorthwywr Addysgu o fewn a rhwng ysgolion.
- CGA a Pasbort Dysgu Proffesiynol

Deilliannau: Cynorthwywr Addysgu â gwybodaeth am y safonau proffesiynol, strategaethau perthnasol cyfredol i gefnogi eu harferion ac ystod o syniadau a strategaethau i ysbrydoli proffesiynoldeb yn ôl yn yr ysgol.



Dyddiad(au): Hyfforddiant 2 ddiwrnod – gellir ei gyflwyno dros diwrnodau llawn, hanner diwrnodau neu gyfuniad o'r ddau
Parhaol – ar gael i glystyrau o ysgolion drwy'r flwyddyn e.e. diwrnodau HMS
Cysylltwch gyda Wendy Williams (Cydlynedd LIDGA) WendyWilliams@gwegogledd.cymru

DIWRNOD DATBLYGU CALU

Addas ar gyfer: Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch sydd wedi derbyn statws CALU Llywodraeth Cymru

Disgrifiad: Darperir y Diwrnod Datblygu CALU yn Genedlaethol, ac mae'n cynnwys:

- Cyfle i glywed am arferion gorau y rhanbarth mewn addysg dan arweiniad CALU
- Cael ysbrydoliaeth, a bod yn barod i roi'r arferion gorau ar waith wedi'r diwrnod proffesiynol hwn
- Siaradwr gwadd – i'w gadarnhau
- Creu a gwella rhwydweithiau a chydweithio proffesiynol ymysg cynorthwywyr addysgu, o fewn ysgolion, a rhwng ysgolion

Deilliannau:

- Arddangosfeydd yn rhoi cyfle i CALU dderbyn datblygiad proffesiynol pellach drwy rannu arferion da.
- Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch â gwybodaeth am strategaethau perthnasol cyfredol i gefnogi eu harferion ac ystod o syniadau a strategaethau i ysbrydoli proffesiynoldeb yn ôl yn yr ysgol.
- Cynyddu hyder a statws y gweithlu drwy ddatblygiad proffesiynol sy'n arwain at gyfleoedd i ddatblygu eu gyrfa ymhellach.

Dyddiad(au): I'w gadarnhau



RHAGLEN DATBLYGU DARPAR CALU

Addas ar gyfer: Cynorthwywyr Addysgu profiadol sy'n dymuno datblygu eu sgiliau ymhellach a nodi eu parodrwydd ar gyfer Asesiad CALU.

Disgrifiad: Rhaglen genedlaethol yw hon a gydlynir gan gonsortia rhanbarthol, sy'n defnyddio ystod o bartneriaid hwyluso, mewn cydweithrediad ag Awdurdodau Lleol.

Mae'n rhaglen 4 diwrnod a ddarperir dros 2 dymor ac mae'n archwilio'r safonau proffesiynol newydd yn fanwl. Mae'r rhaglen yn archwilio rôl hanfodol Cynorthwywyr Addysgu wrth gynorthwyo'r disgyblion a'r ysgolion i gyflawni amcanion y Genhadaeth Genedlaethol, Ysgolion fel Sefydliadau Dysgu a datblygu'r Cwricwlwm Newydd.

Deilliannau: Ar ôl cwblhau'r rhaglen hon yn llwyddiannus, mae'r Cynorthwywyr Addysgu mewn sefyllfa gref iawn i nodi eu parodrwydd ar gyfer asesiad CALU.

Hwn yw'r dysgu proffesiynol angenrheidiol ar gyfer derbyn Asesiad statws CALU.

Dyddiad(au): Rhaglen dros 2 dymor - 1 diwrnod pob hanner tymor.

Cylch 9 - Tymor yr Hydref 2024 a Tymor y Gwanwyn 2025

Ffurflen gais: <https://forms.office.com/e/Hwkna7jzvi>

Dyddiad cau 13/6/2024

Cylch 10 – Tymor y Gwanwyn a Thymor yr Haf 2025

Dyddiad a lleoliad i'w gadarnhau.

RHWYDWAITH I GYNORTHWYWYR ADDYSGU A CALU

Addas ar gyfer: Cynorthwywyr Addysgu a Chynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch ar draws y rhanbarth.

Disgrifiad: Darperir y rhwydwaith rhanbarthol hwn gan GwE yn rhithiol, ac mae'n cwmpasu:

- Safonau Proffesiynol ar gyfer Cynorthwyo Addysgu
- Defnyddio'r Safonau Proffesiynol er mwyn datblygu'n broffesiynol
- Cyfle i gynorthwywyr a CALU rannu arferion effeithiol
- Cyfle i rannu materion cyfredol y byd addysg
- creu a gwella rhwydweithiau a chydweithio proffesiynol ymysg Cynorthwywyr Addysgu

Deilliannau:

- Rhannu arbenigeddau ar draws y rhanbarth.
- Cael ysbrydoliaeth, a bod yn barod i roi'r arferion effeithiol ar waith.
- Derbyn gwybodaeth am faterion cyfredol y byd addysg

Dyddiad(au): Yn rhithiol yn ystod ail hanner pob tymor



RHAGLEN GENEDLAETHOL ARWEINYDDIAETH GANOL – ÔL 16

Addas ar gyfer: Arweinwyr Canol Uwchradd

Disgrifiad: Mae'r rhaglen datblygu arweinyddiaeth ôl-16 wedi'i anelu at ddarparu arweinwyr ôl-16 arweinwyr cyfredol ac fe'i ddyluniwyd i gynnig cyfle i gydweithwyr ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau wrth iddyn nhw baratoi ar gyfer a wynebu'r heriau arweinyddiaeth ôl-16. Mae'r rhaglen yn rhan annatod o waith y Consortia Addysg Cymraeg wrth gyflwyno'r cynnig cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol Mae'r pynciau sy'n cael eu cwmpasu yn y rhaglen yn cynnwys:

- Deall rolau strategol a gweithredol arweinyddiaeth ôl-16
- Hunanwerthuso effeithiol a chynllunio ar gyfer gwelliant
- Cynllunio ymyrraeth a lles ar gyfer dysgwyr
- Meithrin partneriaethau allanol ar gyfer arfer a darpariaeth effeithiol
- Darparu cyngor cynhwysol o ansawdd uchel a chanllawiau i gefnogi pontio dysgwyr, dyheadau a chyrchfannau.

Cyflwynir y rhaglen drwy ddull dysgu cyfunol a chaiff ei chyflwyno gan gydweithwyr rhanbarthol arbenigol ôl-16 ac arweinwyr ôl-16 profiadol presennol.

Deilliannau:

- Datblygu cyfleoedd i arweinwyr Ôl 16 dderbyn hyfforddiant a chefnogaeth i ddatblygu dealltwriaeth lawn o'u rôl.

Dyddiad(au): Hydref 2024 – Mawrth 2025



CYFARFOD RHWYDWAITH BLYNYDDOL ÔL 16

Addas ar gyfer: Arweinwyr Canol ac Ymarferwyr Uwchradd

Disgrifiad: Cyfarfod rhwydwaith flynyddol sy'n gyfle i Arweinwyr Ôl 16 y Rhanbarth ddod at ei gilydd i dderbyn hyfforddiant gyfredol i'w cefnogi yn eu gwaith, i rannu a manteisio ar arferion llwyddiannus ac i rwydweithio.
Rhaglen y Gynhadledd i'w bennu.

Deilliannau:

- Datblygu cyfleoedd i rwydweithio a rhannu arferion llwyddiannus
- Datblygu ymwybyddiaeth a gwybodaeth o'r Maes gan fanteisio ar hyfforddiant berthnasol

Dyddiad(au): Mawrth 2025

RHWYDWAITH TYSTYSGRIF HER SGILIAU UWCH ÔL 16

Addas ar gyfer: Arweinwyr Canol ac Ymarferwyr Uwchradd

Disgrifiad:

- Cyfarfodydd Rhwydwaith Tystysgrif Her Sgiliau Uwch Ôl 16 wyneb yn wyneb a rhithiol, unwaith y tymor neu yn ôl yr angen
- Cyfle i rannu arferion newydd llwyddiannus

Deilliannau:

- Datblygu dealltwriaeth gynyddol o'r cymhwyster
- Cyfrannu at ddeialog proffesiynol ar draws y rhanbarth i gael mynediad at arfer da a syniadau newydd

Dyddiad(au): Dyddiadau cyfarfodydd tymhorol i'w cadarnhau
13/06/2024 - Bryn Eirias



LLWYBRAU AGA - ACHREDEDIG

Addas ar gyfer: Arweinwyr ysgolion (pob sector)

Disgrifiad: Gweithdy yn amlinellu manteision bod yn rhan o Addysg Gychwynnol Athrawon yn yr ysgol a'r llwybrau achrededig sydd ar gael i staff a myfyrwyr.

Deilliannau:

- Mae gan arweinwyr well gwybodaeth a dealltwriaeth o fanteision bod yn rhan o AGA trwy rannu a myfyrio ar arferion llwyddiannus yn y rhanbarth
- Mae gan arweinwyr well gwybodaeth a dealltwriaeth o'r llwybrau AGA sydd ar gael yn y rhanbarth, yn cynnwys prif lif, ADY ac ar sail cyflogaeth

Dyddiad(au): Medi 2024

SESIYNAU I FYFYRWYR AGA

Addas ar gyfer: Athrawon cyswllt o bob sector

Disgrifiad: Bydd staff GwE yn darparu sesiynau cyffredinol i fyfyrwyr sy'n ymateb i themâu a dargedir ar hyn o bryd fel ADY, Cwricwlwm i Gymru, Asesu ar gyfer Dysgu a sgiliau digidol

Deilliannau:

- Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth well o themâu cyfredol gan sicrhau bod myfyrwyr yn uwch sgilio ar sail ffocws Rhanbarthol/Cenedlaethol Dysgu Proffesiynol
- Cefnogi myfyrwyr i wneud cynnydd gwell drwy gydol y rhaglenni

Dyddiad(au): Parhaus o fis Medi 2024



CYNNIG DYSGU PROFFESIYNOL I ANG AC ATHRAWON YN EU GYRFA CYNNAR

Addas ar gyfer:	ANG/Athrawon yn eu Gyrfya Gynnar o bob sector (yn bennaf ar gyfer athrawon sydd â llai na 5 mlynedd o brofiad)
Disgrifiad:	Bydd ANG yn gallu dilyn cynnig Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol a Rhanbarthol i'w cefnogi wrth iddynt ddechrau ar eu gyrfa. Mae GwE hefyd wedi datblygu darpariaeth ranbarthol unigryw sydd ar gael i athrawon yn eu gyrfa gynnar yn ogystal ag ANG.
Deilliannau:	<ul style="list-style-type: none">• Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth well o themâu cyfredol gan sicrhau bod ANG/athrawon yn eu gyrfa gynnar yn uwchsgilio ar sail ffocws Rhanbarthol/Cenedlaethol Dysgu Proffesiynol• Cefnogi ANG/Athrawon yn eu Gyrfya Gynnar i wneud cynnydd gwell gan arwain at fwy o ymarferwyr yn aros yn y maes addysg.• Cefnogi athrawon yn eu gyrfa gynnar i ehangu a dyfnhau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o themâu cyfredol, gan adeiladu ar eu dysgu fel ANG, er mwyn eu paratoi at gam nesaf eu gyrfa.• Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth well o gymorth datblygiadol drwy'r llwybr Dysgu Proffesiynol a'r Rhaglenni Arweinyddiaeth.
Dyddiad(au):	Parhaus o fis Medi 2024 a mis Ionawr 2025



RHAGLEN DATBLYGU ARWEINYDDIAETH GANOL

Addas ar gyfer:	Arweinwyr canol sy'n gyfrifol am feysydd penodol ac/neu reoli staff.
Disgrifiad:	<p>Cyflwynir y rhaglen genedlaethol hon gan y consortia rhanbarthol. Mae'r rhaglen yn hyrwyddo arweinyddiaeth effeithiol iawn trwy hunan arfarnu a myfyrio, gan archwilio'r berthynas rhwng arweinyddiaeth, ysgolion llwyddiannus a'r gymuned ehangach. Mae'r modiwlau craidd yn cynnwys:</p> <p>Modiwl Datblygu 1: Beth yw arweinyddiaeth ganol effeithiol yn y cyd-destun presennol?</p> <p>Modiwl Datblygu 2: Arwain addysgeg, cyflwyno addysgu a dysgu effeithiol</p> <p>Modiwl Datblygu 3: Rheoli; strategaethau, strwythurau a systemau</p> <p>Modiwl Datblygu 4: Cyflwyno mwy trwy gydweithrediad effeithiol</p> <p>Modiwl Datblygu 5: Arfarnu ac effaith</p> <p>Bydd pob cyfranogwr yn cwblhau Tasg Profiad Arweinyddiaeth trwy ddefnyddio'r canfyddiadau ymchwil diweddaraf wrth ddatblygu eu sgiliau arweinyddiaeth.</p> <p>Hefyd, bydd gan bob cyfranogwr fentor yn yr ysgol a cheir sesiynau rhwydweithio â chymheiriaid a fydd yn arwain at rannu syniadau, cefnogaeth gan gymheiriaid a datrys problemau ar y cyd, a fydd yn darparu cyfle i ddysgu gan eraill.</p>
Deilliannau:	<p>Bydd cyfranogwyr yn:</p> <ul style="list-style-type: none">• datblygu dealltwriaeth o'r rôl• datblygu ymhellach eu dealltwriaeth o'r agenda diwygio cenedlaethol• datblygu eu harfer yn unol â'r safonau arweinyddiaeth ffurfiol• paratoi ar gyfer ymgysylltiad effeithiol gydag elfennau pwrpasol o wybodaeth arbenigol a sgiliau; MDaPh, ADY, Cymraeg, ysgolion ffydd, ysgolion bach ac ati.
Dyddiad(au):	Ceisiadau ar gyfer y garfan nesaf yn ystod Tymor yr Hydref 2024 Rhaglen i gychwyn o Ionawr 2025 ymlaen



RHAGLEN DATBLYGU UWCH ARWEINWYR

Addas ar gyfer: Ymarferwyr sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am agwedd ar arweinyddiaeth ar draws sefydliad. Mae hyn yn cynnwys uwch arweinwyr cwricwlwm/bugeiliol ac aelodau o'r uwch dîm arwain, megis penaethiaid cynorthwyol neu ddirprwy benaethiaid.

Disgrifiad: Cydlynir y rhaglen genedlaethol hon gan y consortia rhanbarthol.

Mae symud o arweinyddiaeth ganol i arweinyddiaeth uwch yn gofyn am newid i syniadaeth ysgol gyfan, y sgiliau i reoli timau cymhleth a blaenoriaethau cystadleuol gan sicrhau eich bod yn cadw dysgwyr yng nghanol popeth rydych chi'n ei wneud.

Mae'r modiwlau craidd yn cynnwys:

Modiwl 1: Gwerthoedd ac Ymagweddau, Hunan-Fyfyrio

Modiwl 2: Gweithio gydag Eraill

Modiwl 3: Hyfforddi a Mentora

Modiwl 4: Addysgeg

Modiwl 5: Cydweithio

Mae cyflwyno'r Rhaglen yn cynnwys mentora, rhwydweithiau cymorth cymheiriaid a Hunan Adolygiad Safonau Arweinyddiaeth unigol.

Bydd pob cyfranogwr yn ymgymryd â Thasg Profiad Arweinyddiaeth gan ddefnyddio'r canfyddiadau ymchwil diweddaraf wrth ddatblygu eu sgiliau arwain.

Bydd cyfranogwyr hefyd yn cael Hyfforddwr Arweinyddiaeth a fydd yn cefnogi'r cyfranogwyr ac yn hwyluso'r rhwydwaith cymorth cymheiriaid.

Bydd cyfranogwyr yn ymgysylltu â sesiynau rhwydwaith cymheiriaid a fydd yn arwain at rannu syniadau, cefnogaeth cymheiriaid a datrys problemau ar y cyd, gan roi'r cyfle i ddysgu gan eraill ar draws y system.

Deilliannau: Bydd cyfranogwyr yn:

- Datblygu eu dealltwriaeth o rôl uwch arweinydd ymhellach
- Datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau y dylai uwch arweinydd effeithiol eu gwybod a gallu eu mabwysiadu
- Cael cyfle i ddatblygu'r ymddygiadau arweinyddiaeth sy'n ofynnol ar gyfer uwch arweinydd effeithiol
- Datblygu eu dealltwriaeth o'r agenda diwygio cenedlaethol ymhellach
- Datblygu eu harfer o fewn y safonau arweinyddiaeth ffurfiol.

Dyddiad(au): Ceisiadau ar gyfer y garfan nesaf yn ystod Tymor yr Hydref 2024
Rhaglen i gychwyn o Ionawr 2025 ymlaen



CYMHWYSTER PROFFESIYNOL CENEDLAETHOL AR GYFER PRIFATHRAWIAETH (CPCP)

Addas ar gyfer: Arweinwyr ysgol profiadol sy'n dymuno bod yn benaethiaid yn y dyfodol agos ac sy'n ystyried prifathrawiaeth fel cam nesaf realistig.

Disgrifiad: Yn dilyn yr adolygiad o'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar Gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) o dan arweiniad yr Athro Mick Waters, mae Gwaith yn mynd rhagddo o dan arweiniad Llywodraeth Cymru i lunio rhaglen CPCP newydd.

Deilliannau: Bydd cyfranogwyr yn:

- Cwblhau rhaglen ddatblygol sydd yn eu huwchsgilio a'u paratoi ar gyfer prifathrawiaeth
- Dangos ymroddiad a chyrhaeddiad priodol er mwyn derbyn Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP).

Dyddiad(au): Bydd y rhaglen dwy-flynedd newydd yn cychwyn ym Medi 2024. Rhennir manylion pellach gydag ysgolion unwaith y byddant ar gael.



RHAGLEN DATBLYGU PENAETHIAID NEWYDD A PHENAETHIAID DROS DRO

Addas ar gyfer: Penaethiaid newydd eu Penodi a Dros dro, gyda mynediad at y rhaglen o'r mis Medi cyntaf mewn swydd drwy enwebiad yr Awdurdod Addysg Lleol perthnasol

Disgrifiad:

- Cydlynir y rhaglen genedlaethol hon gan y consortia rhanbarthol ac mae gofyn i bawb cymwys ei chwblhau.
- Cynhelir y rhaglen dros ddwy flynedd. Mae'n cynnwys cyflwyniadau, mentora, darllen a myfyrio personol, a rhwydweithiau cymorth cymheiriaid.
- Bydd pawb cael Hyfforddwr Arweinyddiaeth a fydd yn eu cefnogi dros y ddwy flynedd ac yn hwyluso'r rhwydwaith cymorth cymheiriaid.

Mae'r rhaglen mewn 3 cham :

Cam 1: Trosglwyddo ffurfiol dan ofal yr ALI

Cam 2: Blwyddyn 1 Prifathrawiaeth.

Dilyn 4 modiwl yn cynnwys cyfuniad o sesiynau cenedlaethol a rhanbarthol . Mae'r sesiynau'n cynnwys:

Sesiwn groeso cenedlaethol rhithiol

Modiwl 1: eich llesiant eich hunain ac eraill

Modiwl 2: Arwain Cydweithredu

Modiwl 3: Arwain Arloesi

Modiwl 4: Arwain Dysgu Proffesiynol

Cyfarfodydd cyson gyda'r Hyfforddwyr Arweinyddiaeth a chymheiriaid

Cam 3: Blwyddyn 2 Prifathrawiaeth

Cyfarfodydd cyson gyda'r Hyfforddwyr Arweinyddiaeth a chymheiriaid drwy'r flwyddyn

Yna, yn nhymor yr haf, cynhelir Modiwl 5 yn rhanbarthol er mwyn myfyrio, rhannu profiadau a dathlu eich dwy flynedd gyntaf o brifathrawiaeth

Deilliannau:

- Datblygu ymhellach sgiliau arweinyddiaeth.
- Derbynn amrywiaeth o gefnogaeth yn y ddwy flynedd gyntaf o arwain ysgol.
- Datblygu strategaethau, strwythurau a systemau arweinyddiaeth effeithiol.
- Elwa o wrando ar a chydweithio gyda phenaethiaid profiadol lleol, arbenigwyr rhyngwladol, a chymheiriaid.
- Datblygu diwylliant o arloesi a chydweithio ar draws a thu hwnt i'r ysgol.
- Arwain gwelliannau yn yr ysgol mewn modd effeithiol a chynaliadwy.
- Datblygu ymarfer o fewn y safonau arweinyddiaeth ffurfiol.

Dyddiad(au):	Carfan 5 (2022-2024)	Carfan 6 (2023-2025)	Carfan 7 (2024-2026)
	Modiwl 5 rhanbarthol :	Modiwl 5 rhanbarthol :	Dyddiadau i'w cadarnhau fis
	20/06/2024 Canolfan Busnes	04/06/2025 Canolfan Busnes	Medi 2024
	Conwy 9:00- 11:30	Conwy 9:00- 11:30	



RHAGLEN CYMELL A MENTORA


Addas ar gyfer: Ymarferwyr addysg

Disgrifiad: Mae'r Rhaglen genedlaethol hon yn cynnwys chwe sesiwn wythnosol 3 awr o hyd. Mae'n cynnwys gweithdai rhyngweithiol gyda digon o gyfleoedd i rannu i ystafelloedd trafod a chwarae rôl er mwyn datblygu dealltwriaeth.

Deilliannau: Bydd y Rhaglen yn arfogi mynychwyr gyda strategaethau a modelau er mwyn cefnogi gwaith cymell a mentora effeithiol wrth i gymell gael ei wreiddio o fewn y sefydliad.

Dyddiad(au): I'w gadarnhau

Y Gymraeg





RHAGLEN GENEDLAETHOL ARWEINWYR Y GYMRAEG MEWN YSGOLION CYFRWNG SAESNEG

Addas ar gyfer: Arweinwyr Canol ysgolion Cynradd cyfrwng Saesneg

Disgrifiad: Rhaglen genedlaethol i gefnogi arweinwyr y Gymraeg mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg - sesiwn 0.5 diwrnod rhithiol.

Yn ystod y sesiwn bydd cyfle i arweinwyr:

- ystyried pa elfennau sydd angen sylw wrth gynllunio'n strategol ac arfarnu darpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg
- myfrio ar daith eich ysgol er mwyn datblygu ethos a gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg fel elfen fandadol o'r cwricwlwm
- ystyried pa Ddysgu Proffesiynol ac adnoddau sydd ar gael er mwyn cefnogi'r daith

Deilliannau:

- Datblygu gwybodaeth briodol ar gyfer cynnwys y Gymraeg mewn cynlluniau strategol er mwyn cynyddu darpariaeth a gwireddu gweledigaeth yr ysgol.
- Datblygu dealltwriaeth o'r angen i gynllunio ar gyfer datblygu medrau ieithyddol y gweithlu er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg.
- Datblygu ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd Dysgu Proffesiynol sydd ar gael i gefnogi taith yr ysgol
- Datblygu ymwybyddiaeth o arferion llwyddiannus wrth werthuso'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu ac addysgu a chynllunio'n fwriadus ar gyfer cynyddu darpariaeth yr ysgol ar gyfer y Gymraeg.

Dyddiad(au): I'w gadarnhau

RHWYDWAITH EIN LLAIS NI – YSGOLION CYFRWNG CYMRAEG A DWY IAITH (DIWRNOD 3 a 4)

Addas ar gyfer: Ymarferwyr o bob sector mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwy iaith

Disgrifiad: Rhwydwaith sy'n datblygu cydweithio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd gyda'r ffocws ar wella'r ddarpariaeth ar gyfer medrau siarad a gwrando/llafaredd a llythrennedd

Meysydd sy'n cael sylw:

- Diwrnod 3: Defnyddio technoleg ddigidol i gefnogi datblygiad sgiliau siarad a gwrando
- Diwrnod 4: Gwreiddio Ein Llais Ni yn yr ysgol – arwain newid, cynllunio gwelliant, cynnydd ieithyddol ac adnoddau Dysgu Proffesiynol

Deilliannau:

- Dangos ymwybyddiaeth o ddeunydd ymchwil ac arferion da sy'n arfogi ymarferwyr i gynllunio strategaethau amrywiol er mwyn datblygu hyder a mwynhad dysgwyr wrth siarad Cymraeg
- Derbyn cefnogaeth i sicrhau cyfleoedd mwy niferus i ddysgwyr drafod, datblygu dealltwriaeth o ddisgwyliadau mewn trafodaethau grŵp.
- Datblygu dealltwriaeth gynyddol o nodweddion addysgu llafaredd effeithiol (yn cynnwys amgylchedd ddysgu gynhaliol i ddatblygu sgiliau siarad a gwrando effeithiol, cynllunio pwrpasol er mwyn datblygu sgiliau siarad a gwrando ar draws y MDaPh)

Dyddiad(au): Rhwydwaith wedi'i sefydlu ers mis Tachwedd 2023
Diwrnod 3: 22/04/2024 09:00 – 15:30 – Penrallt, Caernarfon
Diwrnod 4: 17/06/2024 09:00 – 15:30 – Penrallt, Caernarfon

RHAGLEN TRIDIAU EIN LLAIS NI – YSGOLION CYFRWNG CYMRAEG

Addas ar gyfer: Ymarferwyr o bob sector mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwy iaith

Disgrifiad: Mae datblygu medrau llafaredd effeithiol yn hanfodol ar gyfer mynediad at holl gwricwlwm yr ysgol ac yn sgil gydol oes.

Drwy'r sesiynau ceir arweiniad i raglen ac adnodd Ein Llais Ni. Cynigir canllawiau, adnoddau, enghreifftiau gan ysgolion yn ogystal â chefnogaeth ar gyfer arwain y maes yn llwyddiannus er mwyn gweld effaith hir-dymor.

Cynhelir y rhaglen dros gyfnod o dri diwrnod yn ystod tymor yr hydref a'r gwanwyn ac mae'n cynnwys sesiynau 'ar alw' rhithiol i gefnogi.

Bydd disgwyl i bob mynychydd gymryd rhan mewn cyfleoedd ymarferol i ddatblygu a chymhwyso medrau siarad a gwranddo mewn cyd-destunau dilys a bywyd go iawn ar draws Maes Dysgu a Phrofiad fel rhan o'u tasgau rhwng sesiynau.

- Deilliannau:**
- Datblygu dealltwriaeth gynyddol o nodweddion addysgu llafaredd effeithiol
 - Deall pwysigrwydd amgylchedd dysgu cynhaliol sy'n rhoi lle blaenllaw i ddatblygu sgiliau siarad a gwranddo
 - Gwybod am egwyddorion cynllunio pwrpasol a darparu cyfleoedd cyfoethog i ddatblygu sgiliau siarad a gwranddo ar draws y cwricwlwm
 - Dyfnhau dealltwriaeth o strategaethau effeithiol i ddatblygu medrau siarad a gwranddo Cymraeg
 - Cynllunio cyfleoedd mwy niferus i ddysgwyr gael trafod a datblygu eu dealltwriaeth o ddisgwyliadau mewn trafodaethau grŵp
 - Adnabod cyfleoedd pwrpasol i ddefnyddio arfau digidol i gyfoethogi profiadau dysgu ac addysgu
 - Datblygu cysondeb gweithredu drwy'r ysgol drwy wneud defnydd effeithiol o becynnau Dysgu Proffesiynol a chanllawiau arwain sy'n rhan o'r adnodd
 - Cael eu harfogi i fyfyrion ar ddarpariaeth a chynnydd mewn safonau siarad a gwranddo Cymraeg
 - Cydweithio i rannu dulliau ac arferion llwyddiannus mewn addysgeg llafaredd gan gynnwys deunydd ymchwil

Dyddiad(au): Gweithdy un diwrnod a sesiwn 'Ar alw' rhithiol dwy awr

Tymor yr Hydref 2024 a Tymor y Gwanwyn 2025 – 09:00 – 15:30

I'w gadarnhau – Linden House

I'w gadarnhau – Bryn Eirias

I'w gadarnhau – Penrallt

I'w gadarnhau – Ysgol Bro Idris

GWEITHDY UN DIWRNOD – LLAFAREDD MEWN PYNCIAU STEM

Addas ar gyfer: Ymarferwyr o bob sector mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwy iaith

Disgrifiad:

- Arweiniad ar sut i ymgorffori strategaethau llafaredd yn y broses o wneud ymholiad gwyddonol.
- Bydd y gweithdy yn cynnig canllaw a syniadau ar gyfer tasgau siarad a gwrando i gyfoethogi'r broses ymholi mewn arbrofion gwyddoniaeth.

Deilliannau:

- Derbyn sylfaen ar gyfer integreiddio llafaredd mewn gwaith arbrofol yn llwyddiannus.
- Ymgorffori syniadau ar dasgau llafaredd posib er mwyn cyfoethogi'r broses ymholi mewn ymholiadau Gwyddoniaeth.

Dyddiad(au): Gweithdy undydd – Dyddiad a lleoliad i'w gadarnhau

GWEITHDY UN DIWRNOD – YSGOLION CYFRWNG SAESNEG

Addas ar gyfer: Ymarferwyr o bob sector mewn ysgolion cyfrwng Saesneg

Disgrifiad: Ein Llais Ni yn cefnogi'r Fframwaith Cymraeg mewn addysg cyfrwng Saesneg. Dysgu am sut mae ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Saesneg wedi treialu a mireinio strategaethau dysgu Cymraeg fel iaith ychwanegol sy'n hyrwyddo sgiliau siarad a gwrando Cymraeg dysgwyr

Deilliannau:

- Roi sylw pwrpasol i ddatblygu addysgu'r Gymraeg a medrau siarad a gwrando'r dysgwyr.
- Dysgu am ddulliau datblygu'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg
- Datblygu gwybodaeth gynyddol er mwyn sicrhau darpariaeth ar gyfer y Gymraeg sy'n gyfoes, hwyliog, pwrpasol a chynhaliol
- Datblygu dealltwriaeth o sut i annog cynnydd yn awydd a hyder ymarferwyr a dysgwyr yn eu defnydd o'r Gymraeg.
- Datblygu ymwybyddiaeth ymarferwyr a dysgwyr o'r cyfleoedd a ddaw yn sgil siarad Cymraeg a manteision dwyieithrwydd.

Dyddiad(au): Gweithdy undydd – Dyddiad a lleoliad i'w gadarnhau

